Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001



# Swyddi'r Cyfrifiad

## Y gweithlu maes cenedlaethol sy'n dosbarthu'r Cyfrifiad

Bydd Cyfrifiad 2001 yng Nghymru a Lloegr yn creu tua 70,000 o swyddi rhan amser yn bennaf wrth iddo recriwtio gweithlu maes cenedlaethol ar gyfer y dasg anferthol hon.

Cyflogir pob aelod o'r staff gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yr adran o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

- Y swyddi uchaf fydd y 103 o **Reolwyr Ardal y Cyfrifiad** (RhAC). Bydd y rhain yn gyfrifol yn gyffredinol am y ffordd y caiff y Cyfrifiad ei gynnal mewn ardaloedd â phoblogaeth o tua 500,000. (Yng Nghymru, penodwyd Rheolwr y Cyfrifiad yng Nghymru – gweler isod).
- Bydd y RhAC wedyn yn penodi cyfanswm o 2,646 o **Reolwyr Rhanbarth y Cyfrifiad** (RhRhC) fydd yn gyfrifol am ardaloedd â phoblogaeth o tua 50,000.
- O dan y RhRhC ceir tua 6,135 o **Arweinwyr Tîm y Cyfrifiad**.
- Yn olaf, bydd gweithlu o 62,500 o **Gyfrifwyr y Cyfrifiad** yn dosbarthu ffurflenni'r Cyfrifiad i bob cyfeiriad yn y wlad.

Caiff y bobl sydd eu hangen i gynnal y Cyfrifiad eu recriwtio drwy'r wasg genedlaethol a lleol a thrwy Ganolfannau Gwaith lleol. Ac eithrio Rheolwr y Cyfrifiad yng Nghymru a swyddi RhAC, mae'r holl waith yn rhan amser a gellir ei gyfuno â swydd arall. Bydd pob swydd yn gyflogedig.

### Rheolwr y Cyfrifiad yng Nghymru

Bydd Rheolwr y Cyfrifiad yng Nghymru (Deryk Williams) yn ymgymryd â rôl ganolog ac unigryw o fewn rhaglen y Cyfrifiad. Bydd yn sefydlu ac yn cynnal cysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynghori Canolfannau'r Cyfrifiad ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau y bydd y Cyfrifiad yn rhedeg yn esmwyth. Yn ogystal ef fydd y prif bwynt cyswllt ar gyfer y cyfryngau a bydd yn gyfrifol am hybu'r Cyfrifiad yng Nghymru.

*Cyfnod y swydd: 15 mis – o 10 Ebrill 2000 i 30 Mehefin 2001.*

### Rheolwyr Ardal y Cyfrifiad

Mae aelodau uwch y gweithlu maes, Rheolwyr Ardal y Cyfrifiad, yn gyfrifol am benodi a hyfforddi hyd at 25 o Reolwyr Rhanbarth y Cyfrifiad, ac am reolaeth gyffredinol gweithrediad y Cyfrifiad yn eu hardaloedd. Hefyd mae ganddynt rôl wrth hybu'r Cyfrifiad i'r cyfryngau a'r cyhoedd a gellir galw arnynt i gymryd rhan mewn cyfweliadau gyda'r wasg leol ac ar y teledu.

*Cyfnod y swydd: 11 mis – o 31 Gorffennaf 2000 i 30 Mehefin 2001.*

YSTADEGAU GWLADOL

Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**

1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd

## Rheolwyr Rhanbarth y Cyfrifiad

Ymysg y dyletswyddau mae recriwtio a hyfforddi dau i bedwar Arweinydd Tîm y Cyfrifiad a hyd at 60 o Gyfrifwyr y Cyfrifiad i'r ardal a neilltuwyd iddynt. Byddant yn gyfrifol am reoli'r Cyfrifiad o ddydd i ddydd yn eu hardal a gofynnir iddynt gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiadau. Bydd y swyddi yn addas ar gyfer rheolwyr â phrofiad o recriwtio a hyfforddi sy'n gyfarwydd â gweithio i amserlenni caeth.

*Recriwtio:* *Medi i Hydref 2000*

*Cyfnod y swydd:* *o 30 Hydref 2000 i 15 Gorffennaf 2001 (8 mis)*

## Arweinwyr Tîm y Cyfrifiad

Bydd Arweinwyr Tîm y Cyfrifiad yn cynorthwyo Rheolwyr Rhanbarth y Cyfrifiad â thasgau gweinyddol a hyfforddi, yn gweithio fel arweinwyr tîm ar gyfer hyd at 20 o gyfrifwyr.

*Recriwtio:* *Ionawr i Chwefror 2001*

*Cyfnod y swydd:* *o 19 Chwefror 2001 i 1 Mehefin 2001 (14 wythnos)*

## Cyfrifwyr y Cyfrifiad

Bydd yr aelodau hyn o'r tîm yn dosbarthu ffurflenni'r Cyfrifiad i bob cartref mewn ardal benodol. Bydd angen iddynt ddeall a dilyn cyfarwyddiadau manwl a dangos tact ac agwedd ddiplomataidd wrth ymdrin â'r cyhoedd.

*Recriwtio:* *Ionawr i Fawrth 2001*

*Cyfnod y swydd:* *o 19 Mawrth 2001 i 21 Mai 2001 (9 wythnos)*

Mae'n rhaid i bawb gaiff eu penodi fod yn 18 neu'n hŷn. Ni cheir uchafswm oedran. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal.

Os ydych am wneud cais i fod yn aelod o'r gweithlu maes, cadwch eich llygad ar agor am yr hysbysebion yn y wasg genedlaethol a rhanbarthol. Bydd disgrifiadau swydd a ffurflenni cais hefyd ar gael o bob Canolfan Gwaith a gellir eu llwytho o wefan y Cyfrifiad (www.statistics.gov.uk).

O fis Ionawr 2001 bydd llinellau cymorth penodi arbennig ar gyfer swyddi Arweinwyr Tîm y Cyfrifiad a Chyfrifwyr y Cyfrifiad.

## Hyfforddi gweithlu maes y Cyfrifiad

Caiff pob aelod o weithlu maes y Cyfrifiad ei hyfforddi i weithredu'r dasg bwysig hon. Ar gyfer Rheolwyr Ardal y Cyfrifiad bydd y pecyn hyfforddi yn cynnwys cyrsiau preswyl.

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk